

**Y TELERAU CYFAMODOL SAFONOL (NEWYDD) AR GYFER
CYFLENWI GWASANAETHAU CYFREITHIOL GAN FARGYFREITHWYR
I BOBL AWDURDODEDIG 2012 -
ATODIAD T I GOD YMDDYGIAD Y BAR**

MYNEGAI I'R CYMALAU

1. DIFFINIADAU A DEHONGLIAD
2. RHOI'R AMODAU HYN AR WAITH
3. Y CYFARWYDDIADAU I'R BARGYFREITHIWR
4. CAEL A DERBYN Y CYFARWYDDIADAU
5. GWYBODAETH GYFRINACHOL A CHYHOEDDUSRWYDD
6. CYFATHREBU ELECTRONIG
7. DIOGELU DATA
8. DARPARU'R GWASANAETHAU
9. HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL
10. ATEBOLRWYDD
11. FFIOEDD
12. ANFON BIL, TALU A LLOG
13. TERFYNU
14. ILDIAD HAWL
15. DIFRIFOLDEB
16. GWAHARDD HAWLIAU TRYDYDD PARTIÖN
17. CYTUNDEB CYFAN
18. HYSBYSIADAU A CHYFLAWNIAD

19. CYFRAITH LLYWODRAETHU, AWDURDODAETH a DATRYS ANGHYDFODAU

AMODAU CONTRACT SAFONOL AR GYFER CYFLENWI GWASANAETHAU CYFREITHIOL GAN FARGYFREITHWYR I BOBL AWDURDODEDIG 2012

1. DIFFINIADAU A DEHONGLIAD

1.1 Yn yr Amodau Contract hyn ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau gan Fargyfreithwyr i Bobl Awdurdodedig (fel y diffinnir isod) ("yr Amodau"):

1.1.1 mae cyfeiriad at gymal yn gymal perthnasol i'r Amodau hyn;

1.1.2 caiff penawdau eu cynnwys er cyfleustod yn unig ac nid ydynt yn effeithio ar ddehongliad yr Amodau hyn;

1.1.3 mae cyfeiriadau at "bartïon" neu "barti" yn gyfeiriadau at y partïon neu'r parti i'r Cytundeb;

1.1.4 mae'r cyfeiriadau at y gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd ac mae'r cyfeiriadau at yr unigol yn cynnwys y lluosog a'r gwrthwyneb ym mhob achos;

1.1.5 mae cyfeiriadau at berson yn cynnwys cyrff corfforaethol (gan gynnwys partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig) a phartneriaethau, ym mhob achos p'un a oes ganddynt bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn gofyn fel arall;

1.1.6 mae cyfeiriadau at Ddeddf Seneddol, darpariaeth statudol neu offeryn statudol yn cynnwys cyfeiriad at y Ddeddf Seneddol honno, darpariaeth statudol neu offeryn statudol fel y diwygiwyd, estynnwyd neu ail-ddeddfwyd o bryd i'w gilydd ac i unrhyw reoliadau a wnaed oddi tani;

1.1.7 mae cyfeiriadau at unrhyw ddarpariaeth y Cod yn cynnwys cyfeiriadau at y ddarpariaeth honno fel y diwygiwyd, disodlwyd neu ail-rifwyd o bryd i'w gilydd; ac

1.1.8 mae cyfeiriadau at berson neu gorff yn cynnwys cyfeiriadau at ei olynydd.

1.2 Mae gan y geiriau canlynol yr ystyron canlynol dan yr amodau hyn, ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn gofyn fel arall:-

"y Cytundeb"

y cytundeb rhwng y Bargyfreithiwr a'r Person Awdurdodedig i'r Bargyfreithiwr ddarparu'r Gwasanaethau ar y telerau a osodwyd yn yr Amodau hyn;

"y Person Awdurdodedig"

y person sy'n berson awdurdodedig at ddibenion adran 18 (1)(a) Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 a'r rheoleiddiwr cymeradwy dan y Ddeddf honno yw Cymdeithas y Gyfraith ac/neu'r SRA, a'r holl olynwyr a chynrychiolwyr;

"y Bargyfreithiwr"

y bargyfreithiwr, sy'n ymarfer fel aelod o Far Cymru a Lloegr, sy'n fodlon ac yn alluog yn y gallu hwnnw i ddarparu'r Gwasanaethau mewn cysylltiad â'r Achos ac yn unol â'r Cyfarwyddiadau gan y Person Awdurdodedig ar ran y Cleient Lleyg;

"yr Achos"

yr anghydfod neu'r mater cyfreithiol penodol, boed yn gynhennus neu'n angynhennus, mewn perthynas â'r cyfarwyddyd a roddwyd i'r Bargyfreithiwr ddarparu'r Gwasanaethau;

"y Cod"

Cod Ymddygiad Bar Cymru a Lloegr, fel sy'n cael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd;

"Cytundeb Ffi Amodol"

yr ystyr a benodir i'r geiriau hynny trwy ran 58 Deddf Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990;

"y Cyfarwyddiadau"

y briffiau, y cyfarwyddiadau a'r ceisiadau am waith i'w gwneud (a'r holl ddeunyddiau sy'n cyd-fynd â nhw) a roddwyd gan y Person Awdurdodedig i'r Bargyfreithiwr ym mha bynnag ffordd i'w alluogi i gyflenwi'r Gwasanaethau, a bydd gan "Rhoi cyfarwyddyd" a "Chyfarwyddo" ystyron cyfatebol;

"Anfoneb"

Mae'n cynnwys nodyn ffioedd nad yw'n cyfrif at anfoneb TAW

"Cymdeithas y Gyfraith"

Cymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr

"y Cleient Lleyg"

y person y caiff y Bargyfreithiwr gyfarwyddyd er ei les neu ar ei ran gan y Person Awdurdodedig i ddarparu'r Gwasanaethau (a allai fod y Person Awdurdodedig lle mae'r Achos yn ymwneud â materion y Person Awdurdodedig)

"y Gwasanaethau"

y gwasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan y Bargyfreithiwr mewn cysylltiad â'r Achos gan ddilyn y Cyfarwyddiadau a ddarperir gan y Person Awdurdodedig;

"yr SRA"

yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr; a

"Cod yr SRA"

y rhan o Lawlyfr yr SRA a gyhoeddwyd gan yr SRA ar 16 Medi 2011 y cyfeirir ato fel "Cod Ymddygiad SRA 2011" fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd.

2. RHOI'R AMODAU HYN AR WAITH

2.1 Mae'r Bargyfreithiwr yn darparu'r Gwasanaethau y gofynnodd y Person Awdurdodedig amdanynt yn yr Amodau hyn ac sy'n destun ei rwymedigaethau proffesiynol dan y Cod.

2.2 Gallai'r Amodau hyn (ar wahân i'r cymal 2.2 hwn) gael eu hamrywio, ond dim ond os cânt eu cytuno'n amlwg gan y Partion ar bapur (gan gynnwys trwy gyfnewid negeseuon e-bost).

2.3 Trwy roi cyfarwyddyd i'r Bargyfreithiwr ddarparu Gwasanaethau pellach mewn perthynas â'r Achos, derbynia'r Person Awdurdodedig yr Amodau hyn mewn perthynas â'r Gwasanaethau pellach hynny, yn ogystal â mewn perthynas â'r Gwasanaethau y caiff y Bargyfreithiwr gyfarwyddyd cychwynnol i'w darparu.

2.4 Nid yw'r Amodau hyn yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol:

2.4.1 caiff y Bargyfreithiwr ei dalu'n uniongyrchol (a) gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, trwy'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol neu'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol neu (b) gan Wasanaeth Erlyn y Goron; neu

2.4.2 mae'r Bargyfreithiwr wedi mynd i Gytundeb Ffi Amodol mewn perthynas â'r Achos nad yw'n ymgorffori'r Amodau hyn yn benodol.

2.5 Ni fydd dim yn yr Amodau hyn nac unrhyw amrywiad y cyfeirir ato yng nghymal 2.2 yn gweithredu er mwyn gwrthdaro â dyletswydd y Bargyfreithiwr dan y Cod neu gyda dyletswydd y Person Awdurdodedig dan God yr SRA.

3. Y CYFARWYDDIADAU I'R BARGYFREITHIWR

3.1 Rhaid i'r Person Awdurdodedig sicrhau bod y Cyfarwyddiadau a gyflwynir i'r Bargyfreithiwr yn ddigonol i'w gyflenwi â'r wybodaeth a'r dogfennau y mae eu hangen yn rhesymol ac o fewn amser rhesymol o ddigonol iddo ddarparu'r Gwasanaethau y gofynnwyd amdanynt.

3.2 Rhaid i'r Person Awdurdodedig ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau am ragor o wybodaeth neu gyfarwyddiadau a wnaed gan y Bargyfreithiwr.

3.3 Rhaid i'r Person Awdurdodedig roi gwybod i'r Bargyfreithiwr yn syth os oes rheswm i gredu nad yw unrhyw wybodaeth neu ddogfen a ddarperir i'r Bargyfreithiwr yn wir ac yn gywir.

3.4 Lle mae'r Person Awdurdodedig yn gofyn i'r Bargyfreithiwr berfformio pob rhan neu unrhyw ran o'r Gwasanaethau ar frys, rhaid i'r Person Awdurdodedig sicrhau bod:

3.4.1 yr holl gyfarwyddiadau perthnasol wedi'u marcio'n "Brys" yn glir; ac

3.4.2 ar adeg cyflawni'r Cyfarwyddiadau, caiff y Bargyfreithiwr wybod yn glir ac yn ddiamwys am delerau'r amserlen y mae eu hangen ar y Gwasanaethau a'r rheswm am y brys.

3.5 Rhaid i'r Person Awdurdodedig roi gwybod i'r Bargyfreithiwr o fewn amser rhesymol os caiff yr Achos ei ddatrys neu, fel arall, ei gloi.

4. CAEL A DERBYN Y CYFARWYDDIADAU

4.1 O gael y cyfarwyddiadau, bydd y Bargyfreithiwr yn adolygu'r Cyfarwyddiadau o fewn amser rhesymol ac yn rhoi gwybod i'r Person Awdurdodedig a ydyw'n derbyn y Cyfarwyddiadau ai peidio.

4.2 Gall y Bargyfreithiwr dderbyn neu wrthod y Cyfarwyddiadau yn yr amgylchiadau ac am y rhesymau a osodwyd yn y Cod ac ni fydd y Bargyfreithiwr yn atebol os bydd yn gwrthod unrhyw Gyfarwyddiadau yn unol â'r Cod.

4.3 Er gwaethaf derbyn y Cyfarwyddiadau yn unol â Chymal 4.1 uchod, bydd gan y Bargyfreithiwr yr hawl i gynnal unrhyw ddiwydrwydd dyladwy i gwsmeriaid sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007. Bydd y Person Awdurdodedig yn rhoi i'r Bargyfreithiwr yr holl gymorth rhesymol i gynnal unrhyw ddiwydrwydd dyladwy i gwsmeriaid angenrheidiol gan gynnwys (os yn ofynnol i wneud hynny) rhoi caniatâd i'r Bargyfreithiwr sy'n dibynnu ar y Person Awdurdodedig dan Reoliad 17 Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007.

4.4 Os bydd y Bargyfreithiwr yn ystyried yn rhesymol na fodlonwyd gofynion y Rheoliadau Gwyngalchu Arian, fe allai o fewn cyfnod rhesymol ar ôl derbyn y Cyfarwyddiadau, dynnu'n ôl y derbyniad o'r Cyfarwyddiadau hynny heb achosi unrhyw atebolrwydd.

4.5 Yn amodol ar ddarpariaethau blaenorol y Cymal 4 hwn, daw'r Cytundeb i rym wrth i'r Bargyfreithiwr dderbyn y Cyfarwyddiadau.

5. GWYBODAETH GYFRINACHOL A CHYHOEDDUSRWYDD

5.1 Bydd y Bargyfreithiwr yn cadw'n gyfrinachol yr holl wybodaeth a ddarperir iddo mewn cysylltiad â'r achos oni bai:

5.1.1 y caiff awdurdod gan y Person Awdurdodedig neu'r Cleient Lleyg i'w ddatgelu;

5.1.2 bod y wybodaeth yn neu'n dod i barth y cyhoedd heb i gyfrinachedd ar ran y Bargyfreithiwr gael ei dorri; neu

5.1.3 ei bod yn ofynnol iddo neu y caniateir iddo ei ddatgelu yn ôl y gyfraith, neu yn ôl unrhyw awdurdodau rheoleiddiol neu ariannol, ym mha bynnag achos, i'r graddau y caniateir iddo wneud hynny, bydd yn ymdrechu i roi i'r Person Awdurdodedig ac/neu'r Cleient Lleyg gymaint o rybudd ymlaen llaw â phosibl ac yn cael ei ganiatáu i wneud unrhyw ddatgeliad gofynnol.

5.2 Mae ar y Bargyfreithiwr yr un ddyletswydd cyfrinachedd i gleientiaid lleyg eraill ac felly ni fydd yn datgelu nac yn defnyddio unrhyw wybodaeth a allai gael ei rhoi iddo yn gyfrinachol mewn perthynas ag unrhyw fater heb ganiatâd ei gleient lleyg arall, hyd yn oed os ydyw'n berthnasol i ddarparu'r Gwasanaethau.

5.3 Oni fod y Person Awdurdodedig yn rhoi gwybod i'r gwrthwyneb yn amlwg ar bapur i'r Bargyfreithiwr ymlaen llaw, gallai'r Bargyfreithiwr ganiatáu i'r Cyfarwyddiadau gael eu hadolygu gan fargyfreithiwr arall neu gan ddisgybl (gan gynnwys disgybl adeg gwyliau neu mini-ddisgybl) yn y siambrau, ar y telerau bod y bargyfreithiwr neu'r disgybl arall yn cydymffurfio â chymal 5.1.

5.4 Yn amodol ar ei rwymedigaeth dan gymal 5.1, gallai'r Bargyfreithiwr wneud a chadw copïau o'r Cyfarwyddiadau ac unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gynhyrchwyd ganddo.

5.5 I'r graddau y mae'r fath wybodaeth eisoes yn y parth cyhoeddus, gallai'r Bargyfreithiwr ddatgelu yn ei ddeunyddiau marchnata a deunyddiau tebyg ac i ddarpar gleientiaid a chyhoeddwyd cyfeiriaduron cyfreithiol ei fod neu ei fod wedi cael cyfarwyddyd gan y Person Awdurdodedig ac/neu i'r Cleient Lleyg ac am natur yr Achos. I'r graddau nad yw'r fath wybodaeth eisoes yn y parth cyhoeddus, gallai'r Bargyfreithiwr ond cyfeirio ato at ddibenion marchnata ar ffurf sy'n cadw'n ddigonol braint a chyfrinachedd y Cleient Lleyg a (lle mae'r gyfraith yn gofyn) gyda chaniatâd y Cleient Lleyg.

6. CYFATHREBU ELECTRONIG

6.1 Oni y bydd y Person Awdurdodedig yn rhoi cyfarwyddyd fel arall, gallai'r Bargyfreithiwr ohebu trwy bost electronig, gyda'r partion yn cytuno drwy hyn:

6.1.1 i dderbyn y risgiau o ddefnyddio post electronig, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i risgiau firysau, rhyng-gipio a mynediad anawdurdodedig; a

6.1.2 defnyddio gweithdrefnau masnachol rhesymol i gynnal diogelwch post electronig ac archwilio firysau a adwaenir yn gyffredin mewn gwybodaeth a anfonwyd ac a gafwyd yn electronig.

7. DIOGELU DATA

7.1 Mae'r Bargyfreithiwr yn rheolwr data at ddibenion y Ddeddf Diogelu Data ac mae'n rhwym gan y Ddeddf ymhlith pethau eraill, i gymryd mesurau technegol a threfniadol priodol yn erbyn prosesu data personol heb awdurdod ac yn erbyn colled neu ddinistr damweiniol i, neu ddifrod i ddata personol. Mae ganddo hawl i brosesu (sy'n cynnwys caffael, ymgynghori, dal, defnyddio a datgelu) data personol y Cleient Lleyg, y Person Awdurdodedig ac eraill i'w alluogi i ddarparu'r Gwasanaethau, cysylltu â'r Person Awdurdodedig mewn perthynas ag achos y Cleient Lleyg neu ar ran y Cleient Lleyg, i gynnal a diweddarau cofnodion y cleient, llunio data rheoli, atal trosedd, rhoi cyhoeddusrwydd i'w weithgareddau fel y gosodwyd yng nghymal 5.5 uchod, cydymffurfio â gofynion rheoleiddio ac fel a ganiateir neu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Mae gan y Cleient Lleyg a'r Person Awdurdodedig hawl mynediad a hawl cywiro mewn perthynas â'u data personol y mae gan y Bargyfreithiwr amdanynt, yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

8. DARPARU'R GWASANAETHAU

8.1 Bydd y Bargyfreithiwr yn ymarfer sgil a gofal rhesymol wrth ddarparu'r Gwasanaethau. Mae'r Bargyfreithiwr yn cydnabod bodolaeth dyletswydd gofal sy'n ddyledus i'r Cleient Lleyg yn ôl cyfraith gwlad, yn amodol ar ei rwymedigaethau proffesiynol i'r Llys ac o dan y Cod.

8.2 Bydd y Bargyfreithiwr yn darparu'r Gwasanaethau erbyn y dyddiad sydd wedi'i gytuno rhwng y partion, ac mewn unrhyw achos, bydd yn gwneud hynny cyn pen amser rhesymol gan ystyried natur y Cyfarwyddiadau a'i rwymedigaethau proffesiynol sy'n bodoli ymlaen llaw fel y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 701 y Cod.

8.3 Gallai'r Bargyfreithiwr ddirprwyo darpariaeth unrhyw ran o'r Gwasanaethau ond bydd yn parhau'n gyfrifol am y gweithredoedd, hepgoriadau, diffygion neu esgeulustod gan unrhyw gynrychiolydd fel petaen nhw'n weithredoedd, hepgoriadau, diffygion neu esgeulustod gan y Bargyfreithiwr.

8.4 Yn ogystal, bydd y Bargyfreithiwr yn darparu'r holl wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol i alluogi'r Cleient Lleyg ac/neu'r Person Awdurdodedig i asesu pa gostau a achoswyd ac i gael a gorfodi unrhyw orchymyn neu gytundeb i dalu costau yn erbyn unrhyw drydydd parti.

9. HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL

9.1 Mae'r holl hawlfraint a hawliau eiddo deallusol eraill o ba natur bynnag yng nghynnyrch gwaith neu ynghlwm â chynnyrch gwaith y Bargyfreithiwr, gan gynnwys pob dogfen, adroddiad, cyngor ysgrifenedig neu ddeunyddiau eraill a ddarparwyd gan y Bargyfreithiwr i'r Person Awdurdodedig neu'r Cleient Lleyg yn perthyn i ac yn aros gyda'r Bargyfreithiwr. Mae gan y Person Awdurdodedig a'r Cleient Lleyg yr hawl a'r drwydded i ddefnyddio cynnyrch gwaith y Bargyfreithiwr ar gyfer yr Achos penodol a'r pwrpas penodol y cafodd ei baratoi ar gyfer. Os bydd y Person Awdurdodedig neu'r Cleient Lleyg yn dymuno defnyddio copïau o gynnyrch gwaith y Bargyfreithiwr at ddibenion ar wahân i'r rhai y caiff eu paratoi ar eu cyfer, bydd hyn yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig amlwg y Bargyfreithiwr. Mynnir hawliau moesol y Bargyfreithiwr mewn perthynas â'i gynnyrch gwaith.

10. ATEBOLRWYDD

10.1 Yn amodol ar Gymal 10.2 isod, nid yw'r Bargyfreithiwr yn atebol:
10.1.1 Am unrhyw golled neu ddifrod, sut bynnag y'u dioddefwyd, gan unrhyw berson ar wahân i'r Cleient Lleyg;

10.1.2 am unrhyw golled neu ddifrod, sut bynnag y'u dioddefwyd, a achoswyd gan Gyfarwyddiadau anghywir, anghyflawn neu hwyr;

10.1.3 am unrhyw golled anuniongyrchol neu ganlyniadol sut bynnag y'i dioddefwyd.

10.2 Ni fydd dim yng Nghymal 10.1 yn gweithredu er mwyn hepgor atebolrwydd lle caiff y fath waharddiad ei wahardd yn ôl y gyfraith.

11. FFIOEDD

11.1 Ym mhob achos, bydd y ffi am y Gwasanaethau'n cydymffurfio â pharagraff 405 y Cod a bydd yn cael ei chyfrifo trwy gytundeb rhwng y Bargyfreithiwr (neu ei glerc ar ei ran) a'r Person Awdurdodedig, boed yn y dyfodol neu'n ôl-syllol.

11.2 Gallai'r Bargyfreithiwr gytuno darparu'r Gwasanaethau am ffi sefydlog neu gallai gytuno darparu'r Gwasanaethau ar sail cyfradd fesul awr gytûn neu ar sail arall a allai gael ei chytuno bryd i'w gilydd. Os cytunir ar gyfradd fesul awr:

11.2.1 bydd y gyfradd gytûn fesul awr yn destun adolygiad cyfnodol rhesymol gan y Bargyfreithiwr, a gallai gael ei hadolygu gan y Bargyfreithiwr i adlewyrchu unrhyw newidiadau sylweddol rhesymol yn ei statws neu hynafedd;

11.2.2 bydd unrhyw amrywiad i'r gyfradd gytûn fesul awr a'r dyddiad y daw i rym yn cael ei gytuno gyda'r Person Awdurdodedig, ac yn niffyg cytundeb, bydd gan y Bargyfreithiwr hawl i drin y Cytundeb fel un sydd wedi'i derfynu gan y Person Awdurdodedig, yn amodol ar rwymedigaethau'r Bargyfreithiwr dan baragraff 610 y Côt.

11.3 Os na fydd ffi neu gyfradd fesul awr yn cael eu cytuno, bydd gan y Bargyfreithiwr hawl i godi ffi resymol am y Gwasanaethau gan ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol.

11.4 Mae'r ffi am Wasanaethau'r Bargyfreithiwr yn hepgor unrhyw Dreth Ar Werth perthnasol (neu unrhyw dreth o natur debyg) a fydd yn cael ei hychwanegu at y ffi ar y gyfradd briodol.

12. ANFON BIL, TALU A LLOG

12.1 Bydd gan y Bargyfreithiwr hawl i gyflwyno Anfoneb i'r Person Awdurdodedig mewn perthynas â'r Gwasanaethau neu unrhyw ran wedi'i chwblhau o'r rheiny ac unrhyw daliadau unrhyw bryd ar ôl cyflenwi'r Gwasanaethau neu'r rhan berthnasol o'r Gwasanaethau.

12.2 Bydd y Bargyfreithiwr yn cyflwyno Anfoneb i'r Person Awdurdodedig mewn perthynas â'r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt ac unrhyw dreuliau cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl ac nid mwy na 3 mis o'r cynharaf o'r canlynol: (a) cais gan y Person Awdurdodedig; (b) hysbysiad gan y Person Awdurdodedig bod yr Achos wedi'i ddatrys neu fel arall wedi'i gloi; neu (c) terfynu'r Cytundeb.

12.3 Rhaid i'r Anfoneb osod disgrifiad wedi'i restru o'r canlynol:

12.3.1 y gwasanaethau a ddarparwyd gan y Bargyfreithiwr a'r ffioedd a godir;

12.3.2 unrhyw dreuliau a achoswyd a chost y rheiny; a

12.3.3 TAW (neu unrhyw dreth o natur debyg) os oes TAW.

12.4 Rhaid i'r Person Awdurdodedig dalu'r Anfoneb cyn pen 30 diwrnod o'i chael, mae amser yn hanfodol, p'un a ydy'r Person Awdurdodedig wedi cael arian gan y Cleient Lleyg ai peidio. Rhaid talu'r Anfoneb heb unrhyw oedi (boed oherwydd cwyn a wnaed neu anghydfod gyda'r Bargyfreithiwr neu fel arall), a heb unrhyw ddi-dyniad neu ddal yn ôl oherwydd unrhyw drethi neu ffioedd eraill.

12.5 Lle mae'r Bargyfreithiwr wedi cyflwyno nodyn ffioedd, ar gais y Person Awdurdodedig, bydd y Bargyfreithiwr yn cyflwyno anfoneb TAW ar ôl cael y taliad.

12.6 Os bydd yr Anfoneb yn parhau heb ei thalu dros 30 diwrnod o'r dyddiad cyflwyno, mae gan y Bargyfreithiwr yr hawl:

12.6.1 i'r swm penodedig a llog yn unol â'r Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998;

12.6.2 erlyn y Person Awdurdodedig am daliad; ac

12.6.3 yn amodol ar rwymedigaethau'r Bargyfreithiwr i'r Llys ac o dan baragraff 610 y Cod, ymatal rhag gwneud unrhyw waith pellach ar yr Achos oni y gwneir taliad am y gwaith pellach hwnnw ymlaen llaw.

13. TERFYNU

13.1 Gallai'r Person Awdurdodedig derfynu'r Cytundeb trwy roi rhybudd i'r Bargyfreithiwr ar bapur unrhyw bryd.

13.2 Bydd y Cytundeb yn terfynu'n awtomatig cyn gynted ag y mae'r Bargyfreithiwr dan rwymedigaeth yn unol â Rhan VI y Côd neu fell arall i dynnu'n ôl o'r Achos neu orffen gweithredu a'i fod wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion y Côd wrth wneud hynny.

13.3 Gallai'r Bargyfreithiwr derfynu'r Cytundeb trwy roi rhybudd ysgrifenedig pan fydd ganddo hawl yn unol â Pharagraffau 608 i 610 y Côd neu fel arall i dynnu'n ôl o'r Achos neu orffen gweithredu a'i fod wedi cydymffurfio ag unrhyw ofynion y Côd wrth wneud hynny.

13.4 Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw terfynu'r Cytundeb, boed o dan y cymal 13 hwn neu fel arall yn effeithio nac yn rhagfarnu unrhyw rwymedigaethau, hawliau neu rwymedi a gronwyd y partion dan y Cytundeb.

14. ILDIAD HAWL

14.1 Ac eithrio lle datgenir yn amlwg, ni fydd dim a wneir neu heb ei wneud gan y Bargyfreithiwr neu'r Person Awdurdodedig yn cyfansoddi ildiad hawl o ran hawliau'r parti dan y Cytundeb.

15. DIFRIFOLDEB

15.1 Os bydd llys cymwys neu gorff gweinyddiol awdurdodaeth gymwys yn canfod bod unrhyw ddarpariaeth yr Amodau hyn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd y fath annilysrwydd neu anorfodadwyedd yn effeithio ar ddarpariaethau eraill yr Amodau hyn a fydd yn parhau mewn grym ac effaith lawn.

15.2 Os canfyddir bod unrhyw ddarpariaeth yr Amodau hyn yn annilys neu'n anorfodadwy ond y byddai'n ddilys neu'n orfodadwy petai ryw ran o'r ddarpariaeth yn cael ei dileu, bydd y ddarpariaeth dan sylw'n berthnasol gyda'r dileadau fel y gallai fod yn angenrheidiol i'w wneud yn ddilys ac yn orfodadwy.

16. GWAHARDD HAWLIAU TRYDYDD PARTÏON

16.1 Mae'r Cytundeb hwn yn rheoli hawliau a rhwymedigaethau'r Bargyfreithiwr a'r Person Awdurdodedig tuag at ei gilydd ac nid yw'n rhoi unrhyw fudd ar unrhyw drydydd parti (gan gynnwys y Cleient Lleyg). Caiff gallu'r trydydd partïon i orfodi unrhyw hawliau dan y Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 felly eu gwahardd.

17. CYTUNDEB CYFAN

17.1 Yn amodol ar gymalau 2.2 ac 11.1, mae'r Cytundeb, sy'n ymgorffori'r Amodau hyn, yn cynnwys y cytundeb cyfan rhwng y partïon i eithrio'r holl delerau ac amodau a chytundebau blaenorol neu gyfochrog, trafodaethau, hysbysiadau o fwriad a sylwadau eraill a bod y partïon yn cytuno nad ydynt wedi'u hannog i fynd i Gytundeb ar sail unrhyw sylwadau.

18. HYSBYSIADAU A CHYFLAWNIAD

18.1 Gallai unrhyw hysbysiad neu gyfathrebiadau ysgrifenedig eraill i'w rhoi neu gyflwyno dan y Cytundeb hwn gael eu dosbarthu ar ffurf copi caled neu'n electronig (gan gynnwys ffacs ac e-bost) ac yn achos hysbysiad, bydd yn cael ei roi i'r Bargyfreithiwr yng nghyfeiriad, rhif ffacs neu gyfeiriad e-bost ei Siambrau diwethaf adnabyddus ac yn achos hysbysiad i'w roi i'r Person Awdurdodedig yn ei fan busnes, rhif ffacs neu gyfeiriad e-bost adnabyddus diwethaf.

18.2 Ystyrir y bydd hysbysiadau a chyfathrebiadau ysgrifenedig eraill dan y Cytundeb hwn wedi cyrraedd:-

18.2.1 Yn achos dosbarthu dogfennau copi caled trwy'r post dosbarth cyntaf, ar yr ail ddiwrnod gwaith nesaf yn dilyn y diwrnod postio;

18.2.2 Yn achos dosbarthu dogfennau trwy'r post ail ddosbarth, ar y pedwerydd diwrnod gwaith yn dilyn y diwrnod postio;

18.2.3 Yn achos dogfennau ar ffurf electronig, ar y diwrnod gwaith nesaf yn dilyn y dyddiad dosbarthu.

19. CYFRAITH LLYWODRAETHU, AWDURDODAETH A DATRYS ANGHYDFODAU

19.1 Bydd y Cytundeb a'r Amodau hyn yn cael eu rheoli gan ac yn cael eu dadelfennu yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr.

19.2 Oni fydd unrhyw weithdrefn datrys anghydfod arall yn cael ei chytuno rhwng y partïon, bydd y partïon yn cytuno cyflwyno awdurdodaeth unigryw o Lysoedd Cymru a Lloegr mewn perthynas ag unrhyw anghydfod sy'n codi allan neu o dan y Cytundeb hwn.†

19.3 Heb wneud niwed i Gymal 19.2, gallai'r partïon gytuno i ddulliau eraill o ddatrys anghydfodau, gan gynnwys cyflwyno unrhyw anghydfod mewn perthynas â ffioedd i'r Tribiwnlys Gwirfoddol ar y Cyd ar Ffioedd y Bargyfreithwyr lle mae'r Person Awdurdodedig yn gyfreithiwr.

† Atgoffir y partïon os na thelir dyfarniad barn neu Dribiwnlys Gwirfoddol ar y Cyd yn llawn cyn pen 30 diwrnod, gallai'r Bargyfreithiwr ofyn i Gadeirydd

Cyngor Cyffredinol y Bar i gynnwys y cyfreithiwr ar y Rhestr Cyfreithwyr
Diffygiol.